# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones

**YSGOL UWCHRADD BODEDERN DISGYBLION Bl. 7 - 11**
**RHEOLAU GWISG AC YMDDANGOSIAD – BECHGYN A MERCHED**

Dylai pob disgybl Blwyddyn 7 -11 wisgo:

☐ **Tei ysgol – streipen goch a nefi** (maent i'w cael yn yr ysgol neu'r siopau).
☐ **Siwmper wedi ei gweu nefi blw gyda gwddw V a logo'r ysgol.**
***Mae'r ysgol yn hyrwyddo Look Around Sport, Brodwaith, Orchid Fashion a Rapscaliwn fel ein prif ddarparwyr***
☐ **Blows / Crys coch plaen, gyda choler a llewys hir** (neu llewys byr yn yr haf - nid crys "polo")

Mae gwisg wahanol ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 a 13: siwmper gwddw V mewn glas tywyll gyda log y 6ed dosbarth a chrys gwyn.

**Bechgyn a Merched**



☐ Trowsus – du o hyd a lled cyffredin (dim jins, cords, denim na chinos.
☐ Os belt, belt du plaen.
(Gall merched wisgo pe dymunir sgert at y benglin nefi neu ddu)
☐ Sanau plaen du (neu deits du i ferched pe dymunir)

**Addysg Gorfforol:**

☐ Esgidiau Campfa (*Trainers)* gyda gwadnau golau;
☐ Llodrau / shorts du neu 'navy'; Sanau pêl-droed coch; Crys T coch a peiping glas
☐ Crys rygbi cildroadwy

Os dymunir: Esgidiau pêl-droed; Coesarn ar gyfer pêl-droed

Am resymau Iechyd a Diogelwch, ac i arbed trafferth a drwgdeimlad gyda cholledion ni chaniateir i ddisgyblion wisgo:

(i) tlysau ee mwclis. breichled (ag eithrio oriawr)
(ii) modrwyau

Caniateir i ddisgyblion wisgo **un clustdlws "stud" yn unig ymhob clust.**

☐ **Dylid gwisgo esgidiau du plaen sawdl isel sy'n addas a diogel ar gyfer diwrnod ysgol.**
Ni chaniateir esgidiau platfform uchel na sodlau uchel (dim uwch na 4 cm), na thrainers, na "boots"megis "UGGS" na sandalau – nid yw eu hedrychiad yn gweddu â gweddill y wisg ysgol. Ni chaniateir gwisgo motifau na bathodynnau.

☐ **Argymhellir cotiau rhad, plaen tywyll.**
Ni chaniateir gwisgo siacedi denim na 'hoodies'ac mae angen bod yn ofalus iawn wrth ddewis côt law. Dylid osgoi'r dewis o liwiau llachar a chotiau/anoracau gyda motifau ffasiynol. Ni chaniateir gwisgo côt, sgarff na phenwisg y tu mewn i'r adeilad.

☐ Yn ogystal â'r eitemau a restrir, **disgwylir i ymddangosiad cyffredinol pob disgybl a myfyriwr fod yn dderbyniol i'r Pennaeth**. Ni ddylid lliwio gwallt na'i dorri mewn steil eithafol na gwisgo colur. Ni chaniateir addurniadau yn y gwallt e.e. blodau.

☐ Dylai'r bag ysgol fod yn addas i gario ffeiliau, llyfrau a dillad ar gyfer addysg gorfforol (neu gellir cael bag arall addas ar gyfer addysg gorfforol).

☐ Dylai pob eiddo personol fod wedi ei farcio'n glir ag enw llawn y perchennog.

# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones


**YSGOL UWCHRADD BODEDERN Year 7 – 11 PUPILS**
***RULES CONCERNING PUPILS' UNIFORM AND APPEARANCE***

Every pupil in years 7 -11 should wear:

☐ ***School tie - red and navy stripes*** *(available at the school or shops)*
☐ ***A knitted navy blue v-neck jumper with official logo. The school promotes Look Around Sport, Brodwaith and Orchid Fashion, a Rapscaliwn as our main suppliers***
☐ ***Blouse / Shirt - plain red with collar and long sleeves***
*(short sleeve in summer – not a 'polo' shirt)*

*The uniform for year 12 and 13 is slightly different: v neck* navy blue jumper withe the 6th form logo and white shirt.



***Boys and Girls:***
☐ *Trousers - black of conventional length and width (not jeans, cords, denims,chinos).*
☐ *If a belt is worn it must be plain black*
*Girls are permitted to wear a navy/black knee length skirt if desired)*
☐ *Plain black or navy socks (or black/navy tights for girls if desired).*

***Physical Education***
☐ *Trainers (no black soles);*
☐ *Plain black or navy shorts; Red football socks; Red T shirt and blue piping;*
☐ *Convertible Rugby shirt with navy stripe;*
*Optional: Football Boots; Shin pads for football*

*For Health and Safety reasons, and to avoid the problems that inevitably arise when losses occur pupils are prohibited from wearing*

(i) Jewellery e.g. necklaces, bangles (except watches)
(ii) Rings

Pupils are permitted to wear **one "stud"** in each ear only.

☐ ***SHOES – low-heeled, plain black shoes which are suitable and safe for school should be worn****. Platform soles,high heeled shoes (heels must be no higher than 4 cm), trainers, boots e.g. "UGGS" and sandals* ***are not allowed*** *–as they detract from the appearance of the school uniform. No badges or insignia other than official school badges may be worn with school uniform.*
☐ ***COATS - Cheap, dark, plain coats*** *are recommended. Denim jackets and hoodies are not allowed. It is important to choose a raincoat or anorak carefully to avoid glaring colours and fashionable motifs. No coats, scarves or headgear to be worn inside the building.*
☐ *In addition to the items specified,* ***the appearance of pupils must be acceptable to the Head teacher.*** *Hair should not be artificially coloured or styled/ cut in an extreme fashion and the wearing of make-up is prohibited. Hair accessories e.g. flowers are not allowed.*
☐ *A school bag suitable for carrying files, books and sports clothing should be used (or an additional suitable bag could be used for carrying sports clothing)*
☐ *All personal possessions should be clearly marked with the owner's full name*